



**Y Coleg
Merthyr Tudful**

**The College
Merthyr Tydfil**

Adroddiad Blynyddol Gorffennaf 2019 – Gorffennaf 2020

Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Paratowyd yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

This document is available in English



Cynnwys

Cyflwyniad	Tudalen 3
Is-grwpiau	Tudalen 4-5
Monitro	Tudalen 5
Cydymffurfio	Tudalen 6
Llwyddiannau	Tudalen 6-8
Recriwtio a Sgiliau	Tudalen 8
Sgiliau Staff	Tudalen 8-9
Hyfforddiant	Tudalen 9
Lanyards	Tudalen 10
Cwynion	Tudalen 10



Cyflwyniad

Crëir yr Adroddiad Blynyddol hwn o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Safonau'r Gymraeg. O 1af Ebrill 2018 mae gan Goleg Merthyr Tudful ddyletswydd statudol i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y nodir yn yr Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd ar 29 Medi 2017. Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan Prifysgol De Cymru o 31 Ionawr 2019.

Mae'r Fframwaith Rheoleiddiol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Coleg adrodd ar bedwar maes statudol:

- ❖ Delio â'r ffordd y mae'r sefydliad wedi cydymffurfio â'r gwahanol ddsbarthiadau o safonau a osodwyd arno.
 - Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau iaith Gymraeg.
- ❖ Nifer yr aelodau o staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg (sef hyfforddiant ar recriwtio a chyfweld, rheoli perfformiad, gweithdrefnau cwyno a disgyblu, ymsefydlu, delio â'r cyhoedd, ac iechyd a diogelwch)
- ❖ Nifer y swyddi newydd a gwag a gategoreiddir fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol, yn ddymunol, nid yn angenrheidiol, neu lle mae angen eu dysgu;
- ❖ Nifer y cwynion a dderbyniodd y sefydliad am bob dosbarth o safonau.

Gofynion	Safon
Cydymffurfio	154, 155, 156, 164, 170, 176
Sgiliau iaith Gymraeg	134, 158, 161



Nifer yr aelodau o staff a fynychodd hyfforddiant penodol y mae'n rhaid ei ddarparu yn Gymraeg os yw ar gael yn Saesneg.	135, 136, 138, 139, 140, 141, 159,
Swyddi sy'n cael eu categorio gyda'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol	145, 145A, 162
Cwynion	154, 155, 156, 164, 170, 176

Is-grwpiau

Grŵp Llywio'r Gymraeg

Mae Coleg Merthyr Tudful yn aelod o Grŵp Llywio Iaith Gymraeg Prifysgol De Cymru, dan gadeiryddiaeth Ysgrifennydd y Brifysgol. Mae'r grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn i drafod pob agwedd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gweithredu, monitro a dilyniant safonau'r Gymraeg. Ffurfiwyd y grŵp i gynyddu twf y Gymraeg ym mhob rhan o'n sefydliad.

Cydlynwyr y Gymraeg

Mae'r coleg yn rhan o grŵp adrannol a gynhelir ym Mhrifysgol De Cymru ynghyd â chynrychiolydd o bob cyfadran academiaidd ac adran ganolog. Cynhaliwyd y cyfarfodydd yn fisol wrth weithredu'r cyfnod cydymffurfio. Mae'r grŵp hwn yn cefnogi'r gwaith o weithredu safonau'r Gymraeg ac ymdrin ag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau sy'n gysylltiedig â disgwyliadau'r gwasanaeth, delio â dysgwyr a'r cyhoedd, ceisio cyngor gan gydlynwyr eraill, a rhannu arfer da.



Grŵp WESP

Mae'r coleg yn rhan o grŵp WESP a gadeirir gan y cyngor lleol ym mwrdeistref Merthyr Tudful. Mae'r grŵp yn cynrichioli amrywiaeth o sefydliadau a bydd yr egwyddorion arweiniol yn helpu'r cyngor i gyflawni'r weledigaeth Gymraeg ganlynol i Ferthyr Tudful:

Monitro

Tîm Cymraeg y Coleg sy'n ymgymryd â'r broses fonitro fel y cytunwyd yn y coleg.

Y nod yw nodi arfer da a chydymffurfiaeth ym mhob rhan o'r coleg drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd â phenaethiaid is-adrannau i sicrhau bod diweddariadau a dilyniant yn cael eu trafod, siopwyr dirgel yn ymgymryd ag ymweliadau, e-byst a galwadau ffôn. Mae hyn yn galluogi'r tîm i nodi arfer da a rhoi cymorth ar waith i hwyluso unrhyw ddatblygiad ychwanegol. Gwneir hyn yn flynyddol ac adroddir yn ôl ar y canlyniad i dîm gweithredol y coleg. Yna, mae'r canlyniadau'n cael eu hadrodd i benaethiaid yr is-adrannau gan swyddog safonau'r Gymraeg.

Cydymffurfio

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y coleg, mae'r holl staff presennol ym mhob adran wedi cael hyfforddiant llawn ar godi ymwybyddiaeth a disgwyliadau o ran safonau'r Gymraeg. Bydd pob aelod newydd o staff yn derbyn yr hyfforddiant hwn drwy'r cyfnod ymsefydlu. Darperir pecynnau cymorth manwl ar gyfer safonau'r Gymraeg i bob aelod o staff unigol i'w galluogi i gyfeirio at y safonau a'r gofynion cydymffurfio. Darperir canllaw rheolwr i bob rheolwr a phenaeth adran i rannu arfer da o fewn eu tîm a sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'r canllawiau hyn hefyd ar gael ar fewnwyd y staff a phob bwrdd gwaith staff o dan Safonau'r Gymraeg.



Memo Dydd Llun – Bob wythnos mae Pennaeth y coleg yn anfon gwybodaeth a diweddariadau pwysig i'r holl staff ar gyfer yr wythnos i ddod drwy 'Monday Memo' y coleg. Mae adran gwybodaeth a diweddariad iaith Gymraeg wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon.

Llwyddiannau a Chyflawniadau

Cymraeg Gwaith Addysg Bellach

Mae Cymraeg Gwaith yn rhaglen sydd wedi'i chynllunio i gryfhau sgiliau Cymraeg yn y gweithle. Ariennir y cynllun gan Lywodraeth Cymru ac fe'i datblygwyd gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Cymraeg Gwaith Addysg Bellach yw cangen coleg y rhaglen hon sydd, ers ei chyfnod peilot yng Ngholeg Merthyr Tudful 2 flynedd yn ôl, wedi tyfu i fod yn ychwanegiad poblogaidd iawn i'r rhaglen hyfforddi a chymorth ragorol a chynhwysfawr y mae'r coleg yn ei chynnig i'r holl staff. Mae hyfforddiant Cymraeg Gwaith ar gael i staff academiaidd a staff cymorth fel ei gilydd ac mae'n gweithio tuag at wella sgiliau Cymraeg gyda phwyslais penodol ar eirfa, patrymau a senarios yn y gweithle. Mae dysgwyr ar y cynllun yn cael eu hannog a'u cefnogi drwyddi draw, nid yn unig wrth gaffael iaith, ond hefyd wrth gyflwyno'r Gymraeg i'w dosbarthiadau ac i agweddau eraill o'u profiad coleg. Mae Cymraeg Gwaith Addysg Bellach yn sicr yn helpu'r coleg i ymateb i'r her o fodloni Safonau'r Gymraeg a normaleiddio'r Gymraeg yn y coleg drwy wneud hynny o'r tu mewn. Hebdo, a chefnogaeth y staff sy'n ymgysylltu â'r cynllun, mae perygl gwirioneddol y byddai Safonau'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn fater allanol ac amherthnasol.

O ganlyniad i'r cynllun, ym mis Mawrth 2020 cynhaliwyd cystadleuaeth lle bu'n rhaid i staff a gofrestrodd ar y cynllun ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg. Arsylwyd staff academiaidd gan feirniaid allanol, gan gyflwyno gwerau ddwyieithog yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r iaith. Cynlluniodd staff cymorth boster i hyrwyddo hawliau iaith Gymraeg i'r holl staff a dysgwyr gan sicrhau bod logo comisiynwyr y Gymraeg yn cael ei gynnwys ar hyn.

Ochr yn ochr â hyn, bu bore o adloniant Cymreig yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi. Roedd hyn yn cynnwys canu ac adrodd barddoniaeth gan yr ysgol gynradd leol, chwirydd Cymraeg lleol yn



canu yn Gymraeg a siaradwyr gwadd yn codi ymwybyddiaeth o iaith a diwylliant Cymru. Roedd y gwsteion yn cynnwys Dirprwy Gomisiynydd Cymru, Maer Merthyr a'r AS lleol. Roedd hwn yn ddiwrnod llwyddiannus i'r coleg, y dysgwyr, y staff a'r gymuned leol.

Sesiynau anffurfiol wythnosol i staff a myfyrwyr

Mae sesiynau coffi anffurfiol wythnosol ar gael i'r holl staff a dysgwyr. Ers pandemig Covid-19, mae hwn wedi bod ar gael drwy Microsoft Teams.

'Mae gen i hawl': codi ymwybyddiaeth o hawliau myfyrwyr

Ym mis Rhagfyr 2019 cafodd cyfres o fideos 'Mae gen i hawl' eu lanlwytho a'u rhannu drwy sgrin fawr y coleg yn yr Atrium ynghyd â chyfrifon y cyfryngau cymdeithasol. Roedd y fideos hyn yn cynnwys amrywiaeth o staff a dysgwyr yn codi ymwybyddiaeth bod gan bob dysgwr yr hawl i ddefnyddio eu Cymraeg ym mhob rhan o'r coleg, fel y gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

Recriwtio

Nifer y swyddi a hysbysebir gyda'r Gymraeg fel sgil hanfodol neu ddymunol, a chanran y swyddi hynny a lenwyd gyda siaradwyr Cymraeg	
Nifer	% y swyddi a lenwyd gyda siaradwyr Cymraeg
24	8.33%



Sgiliau iaith Gymraeg gweithwyr

Safon		
158 : Nifer a % y staff academiaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl Cyfadran		
Adran/Cyfadran	Nifer	%
Dyniaethau / Welsh	3	15%
Cerbyd Modur	1	100%
Cyfanswm	10	3.72%

Safon

158 Nifer a % y staff gweinyddol sy'n gallu siarad Cymraeg fesul adran/ysgol/coleg a/neu yn ôl gradd swydd



Adran	Siaradwr Cymraeg (Rhugl)	Siaradwr Cymraeg (ddim yn rhugl)	Canran y siaradwyr Cymraeg (o gyfanswm nifer y staff)
Uwch Dîm Rheoli	0	0	0%
Marchnata / Derbyn / Ymholiadau	3	0	23.08%
Man Dysgu	2	1	15%
Ystadau a Seilwaith	0	0	0%
Cofnod Myfyrwyr		1	12.5%
Cyllid Myfyrwyr		1	12.5%
Uwchsgilio yn y Gwaith	0	0	0%

Hyfforddiant Staff

Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigir yn Gymraeg

Mynychodd gyfanswm o 26 aelod o staff gwrs hyfforddi yn ystod blwyddyn academaidd 2018-19 i wella eu sgiliau Cymraeg.



Safon 160: Nifer y staff sy'n gwisgo bathodyn Siarad Cymraeg neu gerdyn adnabod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol;

Dosberthir laniards Cymraeg gan Swyddog y Gymraeg i'r holl staff sydd wedi nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl neu'n ddysgwyr Cymraeg. Mae'r staff wedi dangos hyder wrth wisgo'r laniards hyn ac wedi ei chael yn arf defnyddiol i adnabod y siaradwyr Cymraeg o amgylch y coleg. Cyfanswm y staff sy'n gwisgo laniard Cymraeg **yw 16**. Cyfanswm y staff sy'n wisgo'r laniards 'Dysgwr' **yw 21** aelod o staff.

Cwynion

O ran y Gymraeg a Safonau'r Gymraeg, ni wnaed unrhyw gwynion ffurfiol. Mae'r polisi a'r weithdrefn gwyno ar gael ar wefan y Coleg.

RHAGOR O WYBODAETH

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr adroddiad blynyddol neu unrhyw agwedd ar gydymffurfiaeth Coleg Merthyr Tudful â Safonau'r Gymraeg, cysylltwch â: Lynwen Harrington, Y Coleg Merthyr Tudful, Coleg Boulevard, Merthyr Tudful, CF48 1AR

l.harrington@merthyr.ac.uk